# Gwybodaeth am Daliadau Prifysgol Bwrsariaeth GIG Cymru

## MYFYRWYR MEDDYGOL A DEINTYDDOL





### Dyddiadau Talu

Caiff bwrsariaethau meddygol a deintyddol eu talu mewn tri rhandaliad o'r un swm yn ystod y flwyddyn academaidd.

Caiff y rhandaliad cyntaf ei dalu ym mis Medi, caiff yr ail randaliad ei dalu ym mis Ionawr a chaiff y trydydd rhandaliad ei dalu ym mis Ebrill.

Ni chaiff y taliadau hyn eu gwneud ar ddyddiad penodol ond cânt eu prosesu ar ddechrau'r mis fel arfer.

Rhowch wybod i Brifysgol Caerdydd a Gwasanaethau Dyfarniadau Myfyrwyr pan fyddwch wedi diweddaru'ch Manylion Banc ar BOSS fel y gallwn sicrhau eich bod yn cael eich talu'n gywir ar bob dyddiad rhandaliad perthnasol.

### Manylion Cyswllt

Ceri Atkinson
02922 510 034

### Talu Ffioedd Dysgu

Ar ôl i'ch cais gael ei gymeradwyo, dangoswch eich Hysbysiad o Ddyfarniad i'ch prifysgol fel tystiolaeth y bydd eich ffioedd dysgu yn cael eu talu.

Ar gyfer cyrsiau Israddedig, telir y ffioedd dysgu hyd at **£9,000**

Ar gyfer cyrsiau Mynediad i Raddedigion, telir y ffioedd dysgu hyd at **£3,465**

Dylai'ch prifysgol anfon eich anfoneb ffioedd dysgu atom yn uniongyrchol. Byddwn yn anfon yr anfoneb at Lywodraeth Cymru i'w thalu.

Prosesir anfonebau Ffioedd Dysgu o **1 Rhagfyr** ymlaen mewn unrhyw flwyddyn academaidd benodol.